# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Presiding Officer's office, 4th floor - Tŷ Hywel** |
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher, 17 Medi 2014** |
| **Amser:** | **12:30 - 13:15** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2014(11)

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Sandy Mewies AC** |
| **Swyddogion yn bresennol:** | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson (Swyddog)**<br>**Nicola Callow, Comisiwn y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad (Swyddog)** |
| **Eraill yn bresennol:** | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd** |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

### 1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

**Roedd Rhodri Glyn Thomas AC ac Angela Burns AC wedi anfon eu hymddiheuriadau.**

### 1.2 Datganiadau o fuddiant

**Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.**

### 1.3 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

**Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf.**

## 2 Cyllideb Ddrafft 2015-16

**Roedd dogfen y gyllideb ddrafft, a ystyriwyd yn flaenorol yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf, wedi cael ei diweddaru. Fel y rhagwelwyd, mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys am y cynnydd yng nghost Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gyfer staff y Comisiwn, yn ôl y disgwyl, ac mae gwybodaeth am gyllid dangosol ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol wedi'i chynnwys hefyd. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU ffigwr is na'r disgwyl ar gyfer cyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n dileu'r angen am gynnwys eitem eithriadol.**

**Ystyriodd y Comisiynwyr fod y gyllideb ddrafft yn unol ag anghenion y Comisiwn a disgwyliadau'r Pwyllgor Cyllid yn llwyr. Teimlodd y Comisiynwyr y bydd y Gyllideb yn darparu llwyfan cadarn ar gyfer y Pumed Cynulliad i weithio arno, ac mae'n adlewyrchu'r nodau a'r targedau strategol y cytunwyd arnynt eisoes. Cytunodd y Comisiynwyr ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16, a rhoddwyd cymeradwyaeth i osod y ddogfen ar 25 Medi 2014.**

**Bydd y Pwyllgor Cyllid yn craffu ar y gyllideb ddrafft ar 2 Hydref.**

## 3 Unrhyw Fusnes Arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 29 Medi. Bydd y Comisiynwyr yn canolbwyntio ar faterion perfformiad, pan fyddant yn trafod yr adroddiad Perfformiad Corfforaethol am y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, a chanlyniadau'r Arolwg Aelodau a'u staff cymorth.**

**Bydd Peter Black yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ar 23 Medi i roi tystiolaeth ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.**

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Medi 2014**